**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (07)**

**Dydd Mawrth, 5 Mehefin 2001**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Mike German, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Cymeradwyo Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2001**
*NDM673 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddorion Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodau a Gweithdrefn) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001.

*NDM674 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog Rhif 11.5 sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodau a Gweithdrefn) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001;

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 23 Mai 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld a’r Memorandwm Cywiriadau

**Eitem 6**
**Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol)(Diwygio)(Cymru) 2001**
*NDM675 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddorion Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001.

*NDM676 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog Rhif 11.5 sy’n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2001;

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2001

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 7**
**Dadl ar Strategaethau Cymunedol**

Galluogi’r Cynulliad i ystyried a chymeradwyo’r canllawiau drafft i awdurdodau lleol ynghylch "Paratoi Strategaethau Cymunedol"; y broses o baratoi a rhoi ar waith y strategaethau hynny a fydd yn golygu cydweithio agos rhwng awdurdodau lleol, y cyrff sy’n bartneriaid iddynt a chymunedau lleol; a rhoi sylwadau ar botensial y strategaethau o ran cydlynu a rhesymoli trefniadau cynllunio ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru.

*NDM677 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

1. Croesawu’r rôl arweinwyr cymunedol cyffredinol a roddir ar lywodraeth leol gan Adran 4(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 y ceir copi ohoni ar y Rhyngrwyd ar www.hmso.gov.uk/acts/

acts2000/20000022.htm a’r ddyletswydd a roddir ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru i baratoi ‘strategaethau cymunedol’ i hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd a chyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn y DU.

2. Mabwysiadu’r ddogfen ‘Paratoi Strategaethau Cymunedol’ a baratowyd yn unol ag Adran 4 y Ddeddf, a osodwyd ger bron y Cynulliad Cenedlaethol ar 24 Mai 2001 a fydd:

(a) yn ganllaw i awdurdodau lleol

(b) yn ymrwymo’r Weinyddiaeth i gydlynu a symleiddio’r amrywiaeth o fframweithiau cynllunio mewn llywodraeth leol

(c) yn cadarnhau rôl asiantaethau’r Weinyddiaeth trwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau cymunedol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol*
(1)+(4)+(5)
(2)+(3)+(6)

**Gwelliant 1 -  William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ym mhwynt 2:

Dileer "Mabwysiadu'r", a rhodder "Parhau i adolygu'r"

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Dileer pwynt bwled 2(b), ac ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

3. Yn galw ar y Weinyddiaeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol i gyflwyno amserlen yn amlinellu pa fframweithiau cynllunio y maent yn bwriadu eu symleiddio a'r dyddiad ar gyfer cyflawni hyn.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Dileer pwynt bwled 2(c), ac ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

4. Yn galw ar y Weinyddiaeth Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol i gyfarwyddo'i hasiantaethau i weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu strategaethau cymunedol.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ar ddiwedd pwynt 2, ychwaneger is-bwynt newydd sy'n darllen:

(d) "methu â mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol a gofynion unigryw rhai grwpiau o bobl sy'n aelodau o'n holl gymunedau.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ar ddiwedd pwynt 2, ychwaneger is-bwynt newydd sy'n darllen:

(e) "methu â chael busnesau yn y sector Annibynnol i gyfrannu a buddsoddi'n llawn yn eu strategaethau cymunedol.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

5. Yn galw ar Awdurdodau Lleol Cymru i weithio gyda grwpiau eraill yn eu cymunedau wrth baratoi 'strategaethau cymunedol'.

Cliciwch yma i weld Deddf Llywodraeth Leol 2000 - Dim Copi Cymraeg ar gael
Cliciwch yma i weld Paratoi Strategaethau Cymunedol - Dim Copi Cymraeg ar gael

**Eitem 8**
**Dadl Fer:**
*NDM672* **Mick Bates (Maldwyn); NHS sydd wedi'i gyllido'n ddigonol**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Iau, 12 Mehefin 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**